

TURNER, SHARON (1768 - 1847), cyfreithiwr a hanesydd

Enw: Sharon Turner
Dyddiad geni: 1768
Dyddiad marw: 1847
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfreithiwr a hanesydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Cyfraith
Awdur: Enid Pierce Roberts

Ganwyd yn Llundain 24 Medi 1768 a bu farw yno 13 Chwefror 1847. Ymdrinir yn llawn yn y *D.N.B.* â'i yrfa ac â'i waith. Ei brif waith oedd ei *History of England ... to the Norman Conquest*, 1799-1805. Yng nghwrs y llyfr hwn (a dorrodd dir newydd yn ei bwnc) gwnaeth ddefnydd o hen farddoniaeth Prydain, ac ymosodwyd arno am hynny gan w r a amheuai ddilysrwydd y farddoniaeth honno. Atebodd yntau, yn 1803, gan gyhoeddi *A Vindication of the Genuineness of the Antient British Poems of Aneurin, Taliesin, Llywarch Hen, and Merdhin, with Specimens of the Poems*. Ef oedd y cyntaf i drafod hynafiaeth y rhain, gan ddangos anwybodaeth yr amheuwyr; gweler [John Morris-Jones](#), *Taliesin* (= *Cymm.*, xxviii). Y mae llythyrau a sgrifennwyd ganddo at [William Owen Pughe](#) yn y Llyfrgell Genedlaethol (NLW MS. 13222-4); bu hefyd yn gohebu â [John Hughes o Aberhonddu](#) (1776 - 1843), a rhoes ganmoliaeth i waith hwnnw.

Awdur

Dr Enid Pierce Roberts

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [35239427](#)

Wikidata: [Q3481531](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

